# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd 2 Mawrth 2020 am 7.30yh**
**yn Festri Capel Penyparc.**

**Presennol:**

Cyng. Auriol Williams (Cadeirydd)
Cyng. Delyth Phillips
Cyng. Matthew Morgan
Cyng. Clive Davies (Aelod lleol y Cyngor Sir)
Cyng. Des Davies
Cyng. Peter Williams

Mrs Melanie Davies (*Clerc*)

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Auriol Williams, bawb i gyfarfod mis Mawrth. Estynnodd gydymdeimlad â theulu Callum Lawrence o Heol y Felin a fu farw'n ddiweddar.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cynghorwyr Llinos Price, Dilwyn Jenkins, Lloyd Jenkins, Lyn Jones ac Eurig Lloyd.

3. **Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol**

   Cynigiwyd gan y Cyng. Matthew Morgan ac eiliwyd gan y Cyng. Des Davies fod cofnodion mis Chwefror yn gywir.

4. **Datgelu buddiannau personol:** Cyng. Matthew Morgan, gweler Cynllunio A200142.

5. **Materion yn codi:**

   (a) **Cinio blynyddol:** Trafodwyd pryd i gynnal cinio blynyddol y Cynghorwyr. Cynigiwyd ei gynnal ar nos Wener os oedd prynhawn dydd Sul yn anodd ei drefnu. Byddai'r Clerc yn anfon e-bost at y Cynghorwyr i holi am bosibiliadau.
   (b) **Ciosg yn y Ferwig:** Trafodwyd y ciosg sydd heb ddrws blaen a heb ffôn gweithredol. Roedd y Cyng.Auriol Williams yn bwriadu edrych arno eto ond cytunwyd bod y ciosg yn edrych yn anniben a byddai'n dda cael gwared arno. Cafwyd gwybod bod yna broses i fynd trwyddi i gael gwared arno a byddai'r Cyng. Clive Davies yn cael cyswllt gyda BT i holi. Mae'r tir y mae'n sefyll arno'n eiddo i'r Cyngor Sir.
   (c) **Carreg yr Hen Ysgol:** mae'r garreg bron yn barod i'w hailosod. Mae ffrâm galfanedig yno nawr. Cytunwyd bod angen anfon llythyr at Mr Bell i roi gwybod bod y gwaith ar fin dechrau.
   (d) **Golygfan:** Cafwyd gwybod bod maes parcio'r olygfan angen cael ei wneud eto. Cynigiwyd cael tarmac yno gan y byddai'n para'n well. Cyng. Clive Davies i holi pwy fyddai'n gyfrifol am dalu i wneud hyn.
   (e) **Ffens Patch:** Cynigiwyd efallai bod angen gwneud rhywbeth tymor hir fel cael maes parcio er mwyn atal pobl rhag parcio yno. Ffens wedi'i drwsio erbyn hyn.
   (f) **Tystysgrif Trydan:** angen cael gwybod a oes tystysgrif wedi'i gwneud ar gyfer Ystafell Berkley. I'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

6. **Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

   I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o Ddeddf Ariannol 1996.
   Gofal mewn Galar
   Cyngor Ar Bopeth
   HAHAV

7. **Cynllunio:**

| *Rhif y Cais* | *Cyfeiriad a Bwriad* | *Sylwadau'r Cyngor* |
|---|---|---|
| A200112 | Tir nesaf at Arosfa, Tremain, Aberteifi, SA43 1SL<br>Codi un annedd i'r farchnad agored ac un annedd fforddiadwy. | Dim gwrthwynebiad |

| | | |
|---|---|---|
| A200111 | Plot nesaf at Llainywen, Y Ferwig, Aberteifi, SA43 1QA<br>Codi un annedd fforddiadwy gyda rhandy. | Dim gwrthwynebiad |
| A200142 | Towyn Caravan Park, Gwbert, Cardigan, SA43 1PR<br>Ailddatblygu'r safle carafanau presennol, gan gynnwys ailgyflunio 6 charafan teithio parhaol gyda 6 phod gwersylla, dymchwel y bloc toiledau presennol, codi adeilad storio, deciau, gwaith lefelu a gwaith cysylltiedig. | Dim gwrthwynebiad gydag ailddatblygiad y safle ond mae angen codi pryder ynglŷn â mynediad i'r safle gan fod y ffordd yn dirywio. |

## 8. Materion Ariannol

**Biliau wedi eu talu:**

| | | |
|---|---|---|
| Cyflog y Clerc (Chwefror 2020) | 101834 | £385.97 |
| Costau'r Clerc (Chwefror 2020) | 101835 | £42.05 |
| Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Chwefror 2020) | | Dim |
| Zurich (Yswiriant y Cyngor) | 101836 | £743.34 |
| John Morris (Golchi a pheintio 3 mainc o'r olygfan) | 101837 | £90.00 |

Cynigiwyd gan y Cyng. Des Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Matthew Morgan bod y biliau uchod yn cael eu talu. Ond Clerc i holi ynghylch yr yswiriant i weld beth yw'r sefyllfa am Cae Gwyrdd.

**Materion ariannol eraill**

**Derbyniadau:** Dim.

## 9. Gohebiaeth:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 56 | Gofal Mewn Galar | Cais am rodd ariannol | Nodwyd |
| 57 | Canolfan y Don | Llythyr o ddiolch am rodd ariannol | Nodwyd |
| 58 | Eifion Jones | Ymateb i ymholiad gan y Cyngor am lwybrau cyhoeddus | Gofyn i'r Cyngor Sir am hysbysiadau o bosibl. |
| 59 | Hywel Dda Engagement | Ebost ynghylch gwella ei wasanaeth y tu allan i oriau | Nodwyd |
| 60 | Mrs Delyth Phillips | Llythyr ymddiswyddo | Nodwyd |
| 61 | Mrs Melanie Davies | Llythyr ymddiswyddo | Nodwyd |
| 62 | Glasdon | Llyfrynnau o ddeunyddiau fel arwyddion pentrefi ac ati | Nodwyd |
| 63 | HAHAV (Hosbis yn y Cartref Gwirfoddolwyr Gweithredol) | Cais am rodd ariannol | Nodwyd |
| 64 | HSBC | Gwybodaeth am ffioedd (yn ymwneud â thrafodion rhwng busnesau yn Ewrop) | Nodwyd |
| 65 | Cyngor Ar Bopeth | Cais am rodd ariannol | Nodwyd |

## 10. Materion Eraill:

(a) **Diffibriliwr:** Mae Sheila Williams wedi codi swm o arian am hwn ac eisiau cwrdd â'r Cyng. Clive Davies. Yn anffodus, cafwyd gwybod bod Paul Boland o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi marw felly bydd rhaid mynd yn ôl atynt eto i ofyn ynghylch y trydan oherwydd cytunwyd y byddai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn talu am y trydan. Cytunwyd bod angen gwybod beth yw swm yr arian sydd wedi'i godi

a faint sydd angen cyfrannu. Cytunwyd hefyd y dylai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gyfrannu. Cyng. Peter Williams i holi. Yn ddelfrydol, byddai'n dda cael y diffibriliwr yno erbyn yr haf.

**11. Adroddiad y Cynghorydd Sir, y Cyng. Clive Davies:**

(a) **Clwb Golff:** Nid oedd wedi cael ateb ynghylch ailwynebu'r ffordd i'r Clwb Golff.

(b) **Cynllunio i'r Dyfodol** – Ar fin cwrdd ynghylch safleoedd ymgeisiol ar gyfer yr ardal. Bydd yn adrodd yn ôl mis nesaf.

(c) **Coronafeirws** – Roedd yn mynd i gyfarfod y Cyngor ar ddydd Iau i drafod darpar ddyfodiad y Coronafeirws. Roedd disgwyl clywed am achosion lleol cyn hir.

**12. Dyddiad y cyfarfod nesaf** 6 Ebrill – Ystafell Berkley Penyparc

**Cyfarfodydd y Cyngor am 2020:**
4 Mai - CB (F/Festri?) 1 Mehefin (YB) 6 Gorffennaf (F)
7 Medi (YB) 5 Hydref (F) 2 Tachwedd (YB) 7 Rhagfyr (F)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynyddol

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

**Minutes of the Ordinary Meeting held on 2 March 2020 at 7.30pm at Penyparc Chapel Vestry.**

**Present**

Cllr. Auriol Williams (*Chair*)
Cllr. Des Davies
Cllr. Peter Williams
Cllr. Clive Davies (Local member of the County Council)
Cllr. Delyth Phillips
Cllr. Matthew Morgan
Mrs Melanie Davies (*Clerk*)

1. **Chairperson's welcome:** The Chair, Cllr. Auriol Williams, welcomed everyone to the March meeting. She sympathised with the family of Callum Lawrence of Heol y Felin who recently died.

2. **Apologies for absence:** Councillors Llinos Price, Dilwyn Jenkins, Lloyd Jenkins, Lyn Jones and Eurig Lloyd.

3. **Minutes of the previous meeting**
It was proposed by Cllr. Matthew Morgan and seconded by Cllr. Des Davies that the minutes of the February meeting be recorded as correct.

4. **Declaration of personal interests:** Cllr. Matthew Morgan, please see Planning A200142.

5. **Matters arising:**

(a) **Annual Dinner:** A date for the Councillors annual dinner was discussed. A Friday night dinner was proposed if a Sunday afternoon is difficult to arrange. The Clerk will send an email to Councillors to ask for possibilities.

(b) **Ferwig Telephone Kiosk:** The kiosk without a front door and operational telephone was discussed. Cllr Auriol Williams intended to look at it but it was agreed that the kiosk looks untidy and it would be good to dispose of it. Cllr Clive Davies informed that a process exists for this purpose and he would contact BT to enquire. The land on which it stands is County Council property.

(c) **Hen Ysgol Plaque:** the stone is nearly ready to be reinstalled. A galvanised frame is now there. It was agreed that a letter would be sent to Mr Bell to inform him of the imminent work.

(d) **Viewpoint:** Councillors were informed that the viewpoint car park needs to be resurfaced. Tarmac was proposed as it would be more hard-wearing. Cllr. Clive Davies will ask who is responsible for paying for this.

(e) **Fence at Patch:** It was proposed to do something more long term, such as a car park, in order to prevent cars from parking there. Fence has now been repaired.

(f) **Electricity Certificate:** need to know whether a certificate has been issued for Ystafell Berkley. To be discussed at the next meeting.

6. **Requests for financial support**

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Cruse Bereavement Care

Citizens Advice Bureau

HAHAV

7. **Planning:**

| | *Address and purpose* | *Council's observations.* |
|---|---|---|
| A200112 | Land next to Arosfa, Tremain, Cardigan, SA43 1SL<br>Erect one dwelling for the open market and one affordable dwelling. | No objection. |
| A200111 | Plot next to Llainywen, Y Ferwig, Cardigan, SA43 1QA<br>Erect one affordable dwelling with annex. | No objection |
| A200142 | Towyn Caravan Park, Gwbert, Cardigan, SA43 1PR | No objection to the redevelopment of the site but concern regarding the entrance to the site as the road |

| | | |
|---|---|---|
| | Redevelopment of existing caravan site, including reconfiguration of 6 no. authorised static caravans and replacement of 6 no. permanent touring caravans with 6 no. camping pods, demolition of existing toilet block, construction of storage building, decking, levelling works and associated works | is deteriorating. |

**8. Financial Matters.**

**Bills paid:**

| | | |
|---|---|---|
| Clerk's salary (February 2020) | 101834 | £385.97 |
| Clerk's expenses (February 2020) | 101835 | £42.05 |
| HMRC: Clerk's Income Tax (February 2020) | | Nil |
| Zurich (Council insurance) | 101836 | £743.34 |
| John Morris (Cleaning and painting 3 benches) | 101837 | £90.00 |

It was proposed by Cllr. Des and seconded by Cllr. Matthew Morgan that the above bills be paid. Clerk will enquire regarding the situation of insuring Cae Gwyrdd.

**Other financial matters**

**Receipts:** None.

**9. Correspondence:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 56 | Cruse Bereavement Care | Request for financial support | Noted |
| 57 | Canolfan y Don | Letter thanking for financial donation. | Noted |
| 58 | Eifion Jones | Response to an enquiry from the Council regarding public footpaths | Ask the County Council for notices if possible. |
| 59 | Hywel Dda Engagement | Email regarding improving its out of hours service | Noted |
| 60 | Mrs Delyth Phillips | Letter of resignation | Noted |
| 61 | Mrs Melanie Davies | Letter of resignation | Noted |
| 62 | Glasdon | Booklets of materials such as village signs etc. | Noted |
| 63 | HAHAV (Hospice at Home Aberystwyth Volunteering) | Request for financial support | Noted |
| 64 | HSBC | Information about fees (involving transactions between European businesses) | Noted |
| 65 | Citizens Advice Bureau | Request for financial support | Noted |

**10. Other Matters:**

(a) **Defibrillator –** Sheila Williams has raised a sum of money for this and wishes to meet Cllr Clive Davies. Unfortunately, the Council was informed of the death of Paul Boland from the National Trust and therefore the NT will need to be approached again regarding the electricity, which it was agreed that

the NT would pay for. The Council needs to know how much money has been raised. It was also agreed that the NT should contribute. Cllr. Peter Williams will enquire. Ideally, it would be good to have the defibrillator installed by the Summer.

**11. County Councillor's Report – Cllr Clive Davies*:***

(a) **Golf Club –** He hadn't received a reply regarding the resurfacing of the Golf Club road.

(b) **Future Planning –** He's due to meet regarding canidate sites for the area. He will report back next month.

(c) **Coronavirus –** He will be going to a meeting on Thursday to discuss the imminent cases of Coronavirus. Local cases are likely to be confirmed soon.

**12. Date of next meeting:** 6 April – Ystafell Berkley, Penyparc

**Dates of Council Meetings for 2020:**

4 May - AGM (F/Vestry?) 1 June (YB)

6 July (F) 7 September (YB) 5 October (F) 2 November (YB) 7 December (F)

*Denotes:* F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting